



06 Mehefin 2020

Annwyl gyfaill

Does dim modd ddisgrifio'r misoedd diwethaf. Mae eich gwaith, a gwaith eich staff, wedi bod yn ysbrydoledig. Oherwydd eich ymrwymiad chi, mae staff y GIG a gweithwyr allweddol wedi gallu achub bywydau a chadw'r wlad i fynd. Oherwydd chi, mae rhai o'r plant sydd fwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas wedi derbyn gofal ac yn cael eu bwydo, tra'n cynnig seibiant mawr ei angen i lawer o deuluoedd sy'n cael trafferth.

Fel y gwyddoch, yr wythnos hon cyhoeddais mai nawr yw'r amser i ni symud gyda'n gilydd i'r cyfnod nesaf fel bod pob dysgwr yn cael y cyfle i "Ddod i'r Ysgol, Dal lan, Paratoi ar gyfer yr Haf a mis Medi", gan ddechrau ar Fehefin 29^{ain}. Rwy'n gwybod, o glywed eich sylwadau eisoes, eich bod yn edrych ymlaen at y cyfle hwn i helpu mwy o ddisgyblion i 'ddal i fyny' gyda'u cyd-ddisgyblion a'u hathrawon. Rydym yn cynnig ymestyn y tymor o un wythnos, felly'r diwrnod olaf yn yr ysgol fydd dydd Gwener 24 Gorffennaf (gydag wythnos ychwanegol yn ystod hanner tymor yn Hydref).

Iechyd a lles disgyblion a staff fu fy mhryder pennaf erioed. Dyna pam, pan fydd ysgolion yn ailagor i bob disgybl, y bydd mis llawn o ' brofi, olrhain a diogelu'. Dyna pam y bydd eich staff yn grŵp blaenoriaeth yn ein rhaglen profi gwrthgyrff newydd.

Yn anffodus, ni fydd rhai cydweithwyr a dysgwyr yn gallu dychwelyd i'r ysgol am eu bod yn gwarchod eu hunan ynysu neu'n agored iawn i niwed, a bydd angen ystyried hyn wrth gynllunio.

Er fy mod wedi nodi ein gweledigaeth ar gyfer dod i'r ysgol, dal lan a paratoi ar gyfer yr Haf a mis Medi rwyf wedi bod yn glir bod penderfyniadau penaethiaid yn hanfodol yn y cam nesaf hwn. Chi, ar y cyd â'ch staff, sydd yn y sefyllfa orau i ddeall cyddestun eich staffio, y galw gan rieni a chapasiti'r ysgol.

Yr wyf yn ddiolchgar am yr holl syniadau ac awgrymiadau a gyflwynwyd gan ysgolion a rhieni. Mae hyn yn adeiladu ar y cynigion niferus a ddaeth i rym dros yr ychydig wythnosau diwethaf, ac yn adeiladu ar y profiad yn y 25% o leoliadau a arhosodd yn agored.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru
Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.



Yr wythnos nesaf, byddwn yn cyhoeddi canllawiau i gefnogi ysgolion a cholegau. Bydd hyn yn cynnwys gwybodaeth am reoli eich cyfleusterau, fel adeiladau, glanhau a chludiant.

Ddoe, cyfarfûm â CLILC ac awdurdodau lleol a thrafodais amrywiaeth eang o faterion yn ymwneud â sut y gallwn fod yn eich cefnogi cyn y 29^{ain} – Mae'r gwaith eisoes wedi dechrau ar nifer o faterion allweddol, fel cludiant i'r ysgol. Bydd y cydweithio hwn yn parhau.

Fel yr addawyd, rydym yn sicrhau bod gan ysgolion dros dair wythnos i'w paratoi. Fodd bynnag, gwn fod llawer iawn i'w wneud er mwyn paratoi ar gyfer y cyfnod nesaf a'n bod yn gofyn i lawer ohonoch. Eto i gyd, gwn hefyd, ers i argyfwng Covid-19 gyr-raedd, fod eich ysgolion wedi dangos arweinyddiaeth, tosturi, ac arloesedd. Mae rhieni, disgyblion a'r cyhoedd ehangach yn ymddiried ynddynt.

Rydw i'n addo y bydd Llywodraeth Cymru, gan weithio gydag awdurdodau lleol a chonsortia, yn eich cefnogi a'r penderfyniadau y bydd angen i chi eu gwneud i sicrhau bod eich staff a'ch dysgwyr yn ddiogel, yn ddiogel ac yn cael cefnogaeth.

Yn ddiffuant

Kirsty Williams AC/AM
Y Gweinidog Addysg
Minister for Education

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru
Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.